**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Pobl

**Ystafell Bwyllgor 5, Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Mercher, 17 Mawrth 2021 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd C R Evans (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) |
|---|---|---|
| J P Curtice | S J Gallagher | P R Hood-Williams |
| Y V Jardine | L V Walton | T M White |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Gavin Evans | Prif Swyddog Cymorth Cynnar, Partneriaeth a Phobl Ifanc |
| Amy Hawkins | Pennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau i Oedolion |
| Simon Jones | Arweinydd Strategol y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Allison Lowe | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Lisa Thomas | Uwch-gyfreithiwr |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): M C Child, E T Kirchner a/ac G J Tanner

---

## 20 Derbyn datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw gysylltiadau.

## 21 Cofnodion:

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Pobl a gynhaliwyd ar 17 Chwefror 2021 fel cofnod cywir.

## 22 Datblygu Strategaeth Gwirfoddolwyr. (Ar lafar)

Rhoddodd Amy Hawkins, Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau i Oedolion, ymateb llafar mewn perthynas â datblygu Strategaeth Gwirfoddoli Corfforaethol.

**Cefndir**

Dywedodd ein bod wedi gweithio ochr yn ochr â gwirfoddolwyr yn ystod yr ymateb i COVID-19 a bod yr effaith wedi bod yn aruthrol o fewn y cyngor ac o fewn cymunedau.

Roedd cysylltu cyfleoedd gwirfoddoli o fewn y cyngor yn gam gweithredu ar gyfer ffrwd waith Cefnogaeth y Gymuned Cynllun Adfer y cyngor.

**Pam y dylem gael strategaeth gwirfoddoli corfforaethol?**

- Er mwyn sicrhau bod natur a gwerth cynnwys gwirfoddolwyr yn cael eu deall ar bob lefel o'r cyngor fel bod gwirfoddolwyr a'r cyngor yn elwa o'r cyfraniad y mae gwirfoddolwyr yn ei wneud.
- Gwyddom fod cannoedd o wirfoddolwyr eisoes yn cyfrannu o fewn gwaith y cyngor ac er budd cymunedol a chymdeithasol ehangach, er enghraifft; Pwyllgorau, Amgueddfeydd, Llyfrgelloedd, Llywodraethwyr Ysgol, aelodau'r CRhA a Hyfforddwyr Chwaraeon Cymunedol, Cydlynwyr Digwyddiadau, Gwirfoddolwyr Canolfannau Cymunedol a Grwpiau Cyfeillion.
- Mae ystod ac ansawdd gwasanaethau, cyfleusterau, gweithgareddau a bywyd diwylliannol yn elwa o wirfoddolwyr.
- Mae gwirfoddoli'n gwella ansawdd bywyd y gwirfoddolwyr eu hun a'r bobl a'r cymunedau maent yn eu cefnogi.
- Mae rheoli a chefnogi gwirfoddolwyr yn bwysig a bydd y strategaeth wirfoddoli yn sicrhau bod cefnogaeth a chydnabyddiaeth briodol i'r rhai sy'n gwirfoddoli a'r rhai sy'n cefnogi gwirfoddolwyr.

**Egwyddorion Allweddol Gwirfoddoli:**

1. Mae gwirfoddoli'n cael ei wneud drwy ddewis. Mae gan unigolion yr hawl i wirfoddoli neu beidio.
2. Er na ddylai gwirfoddolwyr fel arfer dderbyn na disgwyl gwobrau neu gymhellion ariannol, dylid eu had-dalu am dreuliau rhesymol.
3. Dylai cyfraniad gwirfoddolwyr a staff cyflogedig gyd-fynd â'i gilydd Ni ddylid defnyddio gwirfoddolwyr i gymryd lle staff cyflogedig nac i danbrisio eu cyflog a'u hamodau gwasanaeth.
4. Dylai gwirfoddolwyr wella ansawdd gweithgareddau'r cyngor.
5. Dylai mecanweithiau effeithiol fod ar waith i gefnogi a datblygu gwirfoddolwyr.
6. Dylai gwirfoddolwyr (a staff cyflogedig) allu cyflawni eu dyletswyddau mewn amgylcheddau diogel ac iach sy'n rhydd o aflonyddwch, bygwth, bwlio, trais a gwahaniaethu.
7. Dylai gwirfoddolwyr gael mynediad at gyfleoedd priodol ar gyfer dysgu a datblygu.
8. Dylid cael proses gydnabyddedig ar gyfer datrys problemau, ar gyfer staff a gwirfoddolwyr.
9. Dylai gwirfoddoli fod yn agored ac yn hygyrch i bawb.
10. Dylai'r gwirfoddolwr a'r cyngor elwa o'r berthynas wirfoddoli.
11. Dylid cydnabod cyfraniad y gwirfoddolwr.

**Cynnydd Cyfredol:**

- Sicrhawyd rhywfaint o gyllid tymor byr ar gyfer cynnydd dros dro mewn oriau ychwanegol i weithwyr presennol ar sail tasg a gorffen i fapio cyfleoedd presennol a chyfleoedd posib o fewn eu meysydd gwasanaeth a'u cyfarwyddiaethau.
- Ar hyn o bryd rydym yn casglu gwybodaeth am y rolau amrywiol y mae gwirfoddolwyr eisoes yn ymgymryd â nhw.

- Yn ogystal â chyfleoedd ar gyfer rolau y gellid eu datblygu gyda gwasanaethau ar draws y cyngor.
- Y prosesau a'r gweithdrefnau sydd eisoes ar waith.
- Profiadau staff sy'n gweithio gyda gwirfoddolwyr ar hyn o bryd.
- Gwybodaeth am fuddion ar y cyd – budd y rôl wirfoddoli i'r gwasanaeth a'r manteision i'r gwirfoddolwr megis hyfforddiant, cymwysterau etc.
- Camau gweithredu rhanbarthol ychwanegol i gefnogi'r strategaeth hon; Hyfforddiant Gwirfoddoli a Phecynnau Cymorth i gefnogi sefydliadau mewn amrywiaeth o themâu gwirfoddoli gan gynnwys; Camau Cyntaf at Wirfoddoli, Gwirfoddoli ar gyfer Gyrfa, Gwirfoddoli'n Ddiogel – bydd y rhain yn cael eu hychwanegu at ein gwefannau ni a gwefannau partneriaid.

**Y Camau nesaf**
- Gorffen y mapio;
- Cydgynhyrchu'r strategaeth wirfoddoli;
- Datblygu ac adnewyddu'r polisïau/gweithdrefnau gwirfoddoli presennol i gefnogi rhoi'r strategaeth ar waith;
- Cymeradwyo, lansio a rhoi ar waith.

Gellid cael rhagor o wybodaeth gan naill ai:
Anthony Richards Anthony.Richards@abertawe.gov.uk neu
Amy Hawkins Amy.Hawkins@abertawe.gov.uk

Roedd Amanda Carr a Julia Manser, Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Abertawe (SCVS) sy'n rheoli Canolfan Wirfoddoli Abertawe hefyd yn bresennol i roi cyngor ac arweiniad, a byddent yn cefnogi gwaith y pwyllgor er mwyn sicrhau bod Abertawe'n cael ei chydnabod fel Cyngor Rhagoriaeth Gwirfoddolwyr.

Diolchodd y Cadeirydd i'r holl swyddogion am ddod i'r cyfarfod ac roedd yn edrych ymlaen at gael rhagor o wybodaeth yn y cyfarfod nesaf.

**Penderfynwyd** cofnodi'r eitem lafar.

## 23 Strategaeth Gofalwyr Ifanc. (Diweddariad Llafar)

Rhoddodd Gavin Evans, Prif Swyddog Cymorth Cynnar, Partneriaeth a Phobl Ifanc ddiweddariad llafar ar y Strategaeth Gofalwyr Ifanc:

- Gwahoddwyd y Cynghorydd Ceri Evans i fynychu cyfarfodydd y grŵp amlasiantaeth yn y dyfodol, trefnwyd y cyfarfod nesaf yn ystod wythnos gyntaf mis Ebrill 2021;
- Trefnwyd y Strategaeth Ddrafft ar gyfer diwedd Ebrill 2021;
- Roedd y grŵp wedi bod yn edrych ar gyflawniadau a blaenoriaethau a byddai'n canolbwyntio ar gwblhau'r Strategaeth Gofalwyr Ifanc;
- Er bod Addysg yn cael ei chynrychioli yn y grŵp ar hyn o bryd, ceisiwyd cynrychiolaeth o bob ysgol i sicrhau y byddai'r gwaith yn cael ei roi ar waith ar y lefel honno;

- Roedd hi’n "Ddiwrnod Gofalwyr Ifanc" ddydd Llun, ond cynhaliwyd Wythnos Gweithredu Gofalwyr Ifanc gyda gweithgareddau ar-lein amrywiol ar gyfer Gofalwyr Ifanc a'u teuluoedd;
- Lansiwyd y cerdyn adnabod newydd, ac roedd Abertawe’n  un o ddeg o Awdurdodau Lleol yng Nghymru a wnaeth gymryd rhan;
- Cyflwynwyd Cyfathrebu Corfforaethol gyda dyfyniadau amrywiol gan y Gweinidog ac Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Plant.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Prif Swyddog Cymorth Cynnar, Partneriaeth a Phobl Ifanc am y diweddariad llafar.

**Penderfynwyd** cofnodi'r wybodaeth ddiweddaraf.

**24 Cynllun Gwaith 2020-2021.**

Amlinellodd y Cadeirydd y Cynllun Gwaith ar gyfer 2020-2021.

Awgrymodd Alyson Pugh, Aelod y Cabinet dros Gymunedau Gwell, y gallai'r Pwyllgor gynorthwyo gyda'r materion cyflogadwyedd mewn perthynas â gwahanol gynlluniau megis y cynllun Kick Start a oedd yn cynnwys amrywiaeth o asiantaethau allanol.  Ar hyn o bryd, y cyngor sy'n gyfrifol am frysbennu'r cynlluniau hyn er mwyn sicrhau bod y bobl gywir yn cael eu paru â'r prosiect mwyaf priodol.

Penderfynwyd ar y canlynol:

1) nodi'r cynllun gwaith:
2) Bydd y pwyllgor yn ystyried ychwanegu "Cyflogadwyedd" i'w cynllun gwaith ar gyfer 2021-2022.

Daeth y cyfarfod I ben am 4.50 pm

**Cadeirydd**